

# AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL

14 Mehefin 2017

Yn Bresennol: Cynghorydd G Hayward (Cadeirydd)

Cynghorydd P Baker, Cynghorydd Mrs D Clements, Cynghorydd K Doolin, Cynghorydd M Evans, Cynghorydd P Harries, Dr R Heath-Davies, Mrs J James, Cynghorydd M James, Cynghorydd PJ Morgan, Cynghorydd R Owens, Mr AE Sangster, Cynghorydd A Wilcox, Cynghorydd M Williams a'r Cynghorydd S Yelland.

(Swyddfa'r APC, Parc Llanion, Doc Penfro: 10.30am – 12.20pm)

## 1. Ymddiheuriadau am absenoldeb

Derbyniwyd ymddiheuriadau am fod yn absennol oddi wrth Mr A Archer, Ms C Gwyther a'r Cynghorydd P Kidney.

## 2. Gair o Groeso

Estynnodd y Cadeirydd groeso cynnes i'r cyfarfod i Mr Steven Jones, y Rheolwr Gweithrediadau oedd newydd ei benodi gan yr Awdurdod.

## 3. Cofnodion

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar y 29<sup>ain</sup> o Fawrth 2017 ac ar yr 17<sup>eg</sup> o Fai 2017 i'w cadarnhau a'u llofnodi.

**PENDERFYNWYD** cadarnhau a llofnodi cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar y 29<sup>ain</sup> o Fawrth 2017 ac ar yr 17<sup>eg</sup> o Fai 2017.

## 4. Materion yn codi o'r cofnodion

### (a) Tyddewi yn Ddinas Diwylliant 2021 (Cofnod 9, 29 Mawrth 2017)

Dywedodd y Prif Weithredwr bod y cais ynglŷn â'r uchod wedi'i gyflwyno ar amser. Fodd bynnag, bu oedi cyn llunio'r rhestr fer oherwydd yr etholiadau Seneddol, ac ni ddisgwyli'r canlyniad – sydd fel arfer yn cynnwys 4 neu 5 dinas – tan ddechrau mis Gorffennaf, ond ni wyddys union ddyddiad y cyhoeddiad.

## NODWYD.

## 5. Adroddiadau o amrywiol gyfarfodydd Pwyllgorau'r Awdurdod

Cyflwynwyd yr adroddiadau canlynol o gyfarfodydd sawl un o Bwyllgorau'r Awdurdod gerbron yr Aelodau i'w hystyried/er gwybodaeth:

- (i) Pwyllgor Rheoli Datblygu a gynhaliwyd ar 8 Chwefror 2017, 27 Chwefror 2017 ac ar 22 Mawrth 2017;
- (ii) Pwyllgor Adolygu Gweithredol a gynhaliwyd ar 22 Mawrth 2017;
- (iii) Panel Adolygu Perfformiad y Prif Weithredwr a gynhaliwyd ar 11 Ebrill 2017;



- (iv) Pwyllgor Archwilio ac Adolygu Gwasanaethau Corfforaethol a gynhaliwyd ar 10 Mai 2017.

## 6. Tirweddau'r Dyfodol Cymru

Atgoffwyd yr Aelodau eu bod fis Tachwedd 2015 wedi derbyn copi o'r Adolygiad o Dirweddau Dynodedig, oedd yn ffrwyth gwaith y broses adolygu a gynhaliwyd gan grŵp o dan arweiniad yr Athro Terry Marsden. Roedd y papur hwnnw hefyd yn amlinellu bwriad Llywodraeth Cymru i sefydlu Gweithgor Tirweddau'r Dyfodol, o dan arweiniad yr Arglwydd Dafydd Elis-Thomas AC i gynnwys cynrychiolwyr o'r Awdurdodau Parciau Cenedlaethol, Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE), grwpiau buddiannau, busnesau, a llywodraeth leol. Prif gylch gwaith y grŵp hwn oedd talu sylw i'r argymhellion oedd yn codi o'r Adolygiad o Dirweddau Dynodedig a chyhoeddi adroddiad ar eu canfyddiadau yn ystod 2016.

Fis Rhagfyr 2015, roedd Llywodraeth Cymru wedi sefydlu grwpiau fel rhan o Raglen Tirweddau'r Dyfodol Cymru yr oedd yr Awdurdod wedi'i gynrychioli arnynt, ac roedd manylion am y grwpiau hyn wedi'u nodi yn yr adroddiad.

Cafodd y fersiwn terfynol o'r adroddiad Tirweddau'r Dyfodol: Cyflawni i Gymru ei gyhoeddi gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig ar y 10fed o Fai 2017, ac roedd copi ynghlwm wrth yr adroddiad i'r Aelodau. Y gobaith oedd y byddai hyn yn dod â'r hyn oedd wedi bod yn gyfnod o bedair blynedd o adolygu i ben. Fodd bynnag, roedd yr Awdurdod yn awr yn symud ymlaen i gyfnod o drafod a gweithredu'r argymhellion yn yr adroddiad, a gofynnwyd am sylwadau'r Aelodau i lywio'r broses hon.

Ychwanegodd y Prif Weithredwr ei fod o'r farn bod yr adroddiad yn cynnwys rhai cyfleoedd. Serch hynny, roedd yn pryderu nad oedd yr argymhellion wedi'u hysgrifennu'n glir iawn. Byddai ymgynghori ehangach â'r rhanddeiliaid ar yr adroddiad yn cael ei gynnal yn ystod mis Gorffennaf. Roedd dadl ar yr adroddiad wedi'i chynnal yn y Senedd ar y 6ed o Fehefin 2017, a byddai dolen gyswllt â'r gweddarllediad yn cael ei anfon at yr Aelodau. Roedd y ddadl hon yn amlygu'r angen am fwy o addysgu Aelodau'r Cynulliad am waith yr Awdurdodau Parciau Cenedlaethol. Fodd bynnag, roedd y ddadl hefyd wedi'i gwneud yn glir y byddai unrhyw newidiadau angen deddfwriaeth sylfaenol ac y byddai digon o gyfle felly i roi mewnbwn i'r broses.

Roedd sylwadau'r Aelodau ar yr adroddiad yn disgyn i dri maes cyffredinol - yr awgrym y byddai gostyngiadau parhaus yn yr ariannu yn ei gwneud yn ofynnol i gyflawni 'mwy gyda llai', fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod gronni adnoddau a grymuso ac ymgysylltu â'i gymunedau; y pryder y byddai'r angen am deddfwriaeth sylfaenol ynghylch trydydd diben economaidd yn arwain at yr elfen hon yn cael ei



cholli neu'n dioddef oedi hir; a'r diffyg cyfeiriadau at y morwedd, cadwraeth ac yn arbennig at wella materion megis bioamrywiaeth, gyda'r perygl y gallai'r galw am i'r ddyletswydd economaidd bresennol ddod yn ddiben, arwain at niweidio'r union bethau yr oedd y Parciau Cenedlaethol wedi'u creu i'w hamddiffyn.

Ymatebodd y Prif Weithredwr i rai o'r pwyntiau hyn drwy nodi, o ran y diffyg cyfeiriadau at gadwraeth, bod yr iaith yn yr adroddiad wedi cael ei diweddarau i amlygu'r hyn a geir yn y deddfwriaeth newydd, a deallwyd bod cadwraeth wedi'i gynnwys yn y term 'rheoli'r dirwedd'. Ychwanegodd bod disgwyl y byddai deddfwriaeth yn dod i rym yn ystod tymor presennol y Cynulliad, ac y byddai hyn yn debygol o gynnig cynnwys y ddyletswydd economaidd fel diben, ac y byddai'r broses yn caniatáu dadl briodol ar y mater hwn. O ran gweithio ar y cyd, er y cydnabyddwyd y gallai mwy o waith gael ei wneud i ddathlu'r llwyddiannau, ni allai'r Awdurdod fod wedi cyflawni fel y gwnaeth pe nad oedd wedi gweithio yn helaeth gydag amrywiaeth o bartneriaid, yn enwedig Cyngor Sir Penfro. Ychwanegodd un Aelod mai'r gobaith oedd y gellid gweithio'n agosach ym meysydd iechyd ac addysg lle'r oedd gan yr Awdurdod lawer i'w gyfrannu.

O ran y camau nesaf, gofynnodd un Aelod sut fyddai'r cynllun gweithredu yn yr adroddiad yn dod yn gynllun cyflawni, gan ganolbwyntio ar y meysydd hynny lle gallai'r Parciau Cenedlaethol gael effaith. Atebodd y Prif Weithredwr bod Parciau Cenedlaethol Cymru wedi cael £150,000 gan Lywodraeth Cymru i gyflawni'r canlyniadau, ac amlinellodd rai o'r cynigion presennol ar gyfer mynd â'r maen i'r wal.

#### **PENDERFYNWYD:**

- a) nodi'r adroddiad Tirweddau'r Dyfodol Cymru
- b) bod barn yr Aelodau a'r materion a godwyd ganddynt yn y cyfarfod yn cael eu cynnwys mewn trafodaethau parhaus gyda Llywodraeth Cymru.

#### **7. Asesiad Llesiant Sir Benfro**

Atgoffwyd yr Aelodau bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 wedi sefydlu Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer pob Awdurdod Lleol, a diben Bwrdd Sir Benfro oedd gwella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Sir Benfro. Roedd y Bwrdd wedi cytuno ar yr asesiad cyntaf o Lesiant Sir Benfro ar yr 2<sup>ail</sup> o Ebrill 2017, ac roedd copi o'r asesiad hwnnw ynghlwm wrth yr adroddiad. Tasg nesaf y Bwrdd felly oedd paratoi a chyhoeddi Cynllun Llesiant lleol ar gyfer Sir Benfro gan nodi'r amcanion lleol a'r camau yr oedd yn bwriadu eu cymryd i wireddu'r amcanion hynny. Roedd yn ofynnol i'r Cynllun Llesiant gael ei gytuno erbyn mis Mai 2018, a byddai'r gwaith o'i ddatblygu yn cynnwys ymgynghori ag ystod eang o randdeiliaid. Gofynnwyd i Aelodau'r Awdurdod felly i dynnu sylw at faterion o flaenoriaeth i'w cynnwys yn y Cynllun Llesiant, a byddai'r wybodaeth honno yn cyfrannu at y trafodaethau gan y Bwrdd.



Roedd yr Aelodau yn croesawu'r Asesiad, gan nodi ei fod yn rhoi darlun diddorol iawn o Sir Benfro a'r materion yr oedd y sir yn eu hwynebu. Ymhlith y materion a nodwyd ganddynt ar gyfer eu cynnwys yn y Cynllun Llesiant oedd mwy o rymuso i ddefnyddio'r iaith Gymraeg yng Ngogledd a De'r Sir; pwysigrwydd Addysg Uwch i baratoi pobl ar gyfer cyfleoedd gwaith; anghenion seilwaith megis gwelliannau i'r cysylltiadau band eang a ffyrdd/rheilffyrdd; mwy o gydweithio gyda'r Bwrdd Iechyd i wella iechyd a lles y boblogaeth gan gynnwys y rhai sydd ag anabledau a iechyd meddwl gwael. Cyfeiriwyd ganddynt yn arbennig at y gwaith rhagorol a wneir gan yr Awdurdod yn hyn o beth drwy wella llwybrau troed ar gyfer y rhai oedd yn llai abl a thrwy brosiectau megis Dewch i Gerdded, Mynd Amdani a'i olynedd Eich Parc oedd yn gweithio gyda phobl ifanc, yn ogystal â'r prosiect newydd Llwybrau fyddai'n annog gwirfoddoli ar draws ystod o grwpiau oedran.

**PENDERFYNWYD** nodi'r Asesiad Llesiant Sir Benfro a bod y materion a amlygwyd uchod yn cael eu codi gyda'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wrth ddatblygu'r Cynllun Llesiant Sir Benfro.

## **8. Cynllun Archwilio Swyddfa Archwilio Cymru 2017**

Atgoffwyd yr Aelodau mai rhan o drefniadau llywodraethu'r Awdurdod oedd bod Swyddfa Archwilio Cymru yn gwneud archwiliad yn flynyddol, ac roedd prif nodau'r broses hon wedi'u nodi yn yr adroddiad. Roedd y rhaglen waith am y flwyddyn i ddod wedi'i hamlinellu yng Nghynllun Archwilio Swyddfa Archwilio Cymru 2017, oedd ynghlwm wrth yr adroddiad.

Nododd un Aelod bod gwall teipio ym mharagraff 13, a gofynnodd a fyddai gwaith ardystio ceisiadau am grant yn rhan o'r rhaglen waith. Eglurodd y Swyddogion nad oedd yr Archwilydd wedi derbyn cais i wneud y cyfryw waith; roedd Cronfa Datblygu Cynaliadwy yr Awdurdod bellach yn cael ei harchwilio fel rhan o'r Grant Craidd.

Gan nodi'r costau, gofynnodd yr Aelodau i'r swyddogion barhau i godi'r mater o ffioedd uchel ac i geisio newid strwythur y fframwaith sicrwydd fel y gellid gostwng y ffioedd.

## **NODWYD.**

## **9. Ardaloedd Morol Gwarchodedig**

Ar ôl derbyn llythyr yn ddiweddar oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig, roedd yr adroddiad yn nodi'r dynodiadau morol o fewn neu'n gyfagos i Barc Cenedlaethol Arfordir Penfro ac yn rhoi trosolwg i'r Aelodau o gyfrifoldebau'r Awdurdod o ran yr ardaloedd gwarchodedig hyn. Er bod ffin y Parc Cenedlaethol yn dod i ben ar y marc Distyll Cymedrig, roedd yr Awdurdod yn Awdurdod Perthnasol o ran y ddeddfwriaeth. Roedd hwn yn faes cymhleth a heriol, oedd yn fwy dwys oherwydd diffyg adnoddau ar draws pob Awdurdod.

Tra bod cyfraniad yr Awdurdod, yn ariannol ac o ran amser swyddogion, i reoli ardaloedd morol gwarchodedig yn cael ei groesawu, roedd yr Aelodau yn cytuno y dylai'r goblygiadau megis Brexit ac unrhyw ddatblygiadau o ran



Morweddau fydd yn deillio o'r adroddiad Tirweddau'r Dyfodol Cymru, barhau i gael eu monitro.

## **NODWYD.**

### **10. Adolygu Ffiniau Ardal Gadwraeth**

Dywedwyd bod gan yr Awdurdod gyfanswm o 14 o Ardaloedd Cadwraeth, oedd yn ardaloedd o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig, ardaloedd yr oedd yn ddymunol cadw neu wella eu cymeriad. Roedd ffiniau 12 o'r ardaloedd hyn - Angle, Caerfarchell, Ynys Bŷr, Little Haven, Maenorbŷr, Trefdraeth, Parrog Trefdraeth, Porthclew, Tyddewi, Saundersfoot, Solfach a Threfin wedi cael eu hadolygu, a gwelwyd eu bod yn addas at y diben ac nad oedd angen newid eu ffiniau.

Atgoffwyd yr Aelodau bod Cyfarwyddiadau Erthygl 4(2) yn bodoli yn Nhyddewi, Little Haven, Solfach, Dinbych-y-pysgod ac yn Nhrefraeth lle'r oedd arolwg wedi dangos bod eu cymeriad wedi erydu.

Ymgynghorwyd â'r Cynghorau Tref / Cymuned perthnasol ac roedd pob un ohonynt o blaid cadw'r ffiniau fel sy'n bodoli eisoes, ac eithrio Cyngor Cymuned Llandyfái oedd wedi awgrymu newid bychan i Ardal Gadwraeth Porthclew i gynnwys bwthyn adfeiliedig a choedlan i'r gogledd o'r anheddiad. Roedd y swyddog o'r farn y byddai mesur gwarchod arall, sef Ardal Gwarchod Coed, yn ffurf mwy perthnasol o warchod yn yr achos hwn, ac ni farnwyd bod y bwthyn o bwysigrwydd pensaernïol / hanesyddol uchel.

Byddai Ardaloedd Cadwraeth Dinbych-y-pysgod a Phorth-gain yn cael adolygiad pellach ac yn destun adroddiad i'r Awdurdod yn y dyfodol.

**PENDERFYNWYD** bod ffiniau presennol Ardaloedd Cadwraeth Angle, Caerfarchell, Ynys Bŷr, Little Haven, Maenorbŷr, Trefdraeth, Parrog Trefdraeth, Porthclew, Tyddewi, Saundersfoot, Solfach a Threfin yn cael eu hailgadarnhau yn ardaloedd addas at y diben, a bod yr haenau map a'r dyddiadau ar y mapiau ffiniau yn cael eu diweddarau.

### **11. Digwyddiadau Corfforaethol**

Roedd yr adroddiad yn nodi'r digwyddiadau hynny yr oedd Aelodau'r Awdurdod wedi eu gwahodd eleni, a gofynnwyd am enwebiadau Aelodau i fod yn bresennol yn y digwyddiadau hyn.

#### **PENDERFYNWYD:**

- a) bod dau Aelod yn cael eu hawdurdodi i fynychu'r Gynhadledd Europarc rhwng y 6<sup>ed</sup> a'r 10<sup>fed</sup> o Fedi 2017 yn y Magic Mountains, Portiwgal. Mynegodd y Cynghorwyr P Harries a K Doolin ddiddordeb mewn mynychu.
- b) bod pob Aelod yn cael eu hawdurdodi i fynychu Seminar Flynyddol Parciau Cenedlaethol Cymru ar y 3<sup>ydd</sup>/4<sup>ydd</sup> o Hydref 2017 a gynhelir gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.
- c) bod pedwar Aelod yn cael eu hawdurdodi i fynychu Cynhadledd Parciau Cenedlaethol y DU rhwng y 25<sup>ain</sup> a'r 27<sup>ain</sup> o Hydref 2017 a gynhelir gan Barc



Cenedlaethol South Downs. Mynegodd Mrs G Hayward fel Cadeirydd, Mr AE Sangster fel Dirprwy Gadeirydd, y Cynghorydd M James a'r Cynghorydd A Wilcox ddiddordeb mewn mynychu.

- d) bod pob Aelod newydd yn cael eu hawdurdodi i fynychu Cyrsiau Sefydlu Cenedlaethol Parciau Cenedlaethol y DU rhwng yr 31<sup>ain</sup> o Hydref a'r 2<sup>ail</sup> o Dachwedd 2017 ym Mharc Cenedlaethol Ardal y Llynnoedd neu rhwng y 13<sup>eg</sup> a'r 15<sup>fed</sup> o Fawrth 2018 yn Awdurdod y Broads.
- e) bod hyd at 5 Aelod / swyddog yn cael eu hawdurdodi i fynychu Cynhadledd Flynyddol y WLGA. Byddai manylion y gynhadledd hon yn cael eu dosbarthu maes o law.

[Ymddiheurodd y Cynghorydd A Wilcox a gadawodd y cyfarfod yr adeg hon.]

## 12. Adolygu'r Rheolau Sefydlog

Dywedwyd bod cyflwyno'r Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Rheolau Sefydlog) (Cymru) (Diwygio) 2017 yn ei gwneud yn ofynnol bod Awdurdodau Cynllunio Lleol yn addasu eu Rheolau Sefydlog o ran eu Pwyllgorau Cynllunio, lle dylai'r cworwm fod yn 50% o'r aelodaeth wedi'i dalgrynnu i'r rhif cyfan agosaf. Gan nad oedd Rheolau Sefydlog yr Awdurdod wedi cael eu hadolygu ers sawl blwyddyn, roedd yr angen hwn i newid y cworwm wedi ysgogi gwneud adolygiad cyffredinol. Roedd y Rheolau Sefydlog diwygiedig ynghlwm wrth yr adroddiad.

**PENDERFYNWYD** mabwysiadu'r Rheolau Sefydlog diwygiedig.

## 13. Safonau'r Gymraeg

Yn unol â'r Rhybudd Cydymffurfio a gyhoeddwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg, roedd yn ofynnol i'r Awdurdod lunio Adroddiad Blynyddol erbyn y 30<sup>ain</sup> o Fehefin 2017 yn nodi sut yr oedd yn cydymffurfio â'r Safonau a osodir o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Ymddiheurodd y swyddog am fod yn hwyr cyn anfon yr adroddiad at yr Aelodau am ystyriaeth, a cheisiwyd cymeradwyaeth ar gyfer ei gyflwyno i Gomisiynydd y Gymraeg.

Awgrymwyd rhai newidiadau i'r adroddiad gan yr Aelodau, a chytunodd y swyddogion i'w cynnwys.

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg fel cyflwyniad yr Awdurdod i Gomisiynydd y Gymraeg yn amodol ar y newidiadau a awgrymwyd yn y cyfarfod.

